OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 423 (Cy.17)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *15 Chwefror 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *19 Chwefror 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynod(**1**)) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 19 Chwefror 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999 ("y prif Reoliadau") gwneir y newidiadau canlynol i'r diffiniadau:—

(a) yn lle'r diffiniad o "the Commission Regulation", mewnosoder y canlynol:—

""the Commission Regulation" (Rheoliad y Comisiwn) means Commission Regulation (EC) No. 1750/99(**3**) laying down detailed rules for the application of the Council Regulation;"

(b) yn lle'r diffiniad o "the Council Regulation", mewnosoder y canlynol:—

""the Council Regulation" (Rheoliad y Cyngor) means means Council Regulation (EEC) No. 1257/99(**4**)) on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund and amending certain Regulations and repealing others;"

(c) yn lle paragraff (b) o'r diffiniad o "agri-environment scheme" (cynllun amaeth-amgylchedd) mewnosoder y canlynol:—

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.J. L214 13.08.1999, t.31.
(**4**) O.J. L160 26.06.1999, t.80.

"(b) approved by the Commission of the European Communities under Article 43 of the Council Regulation as part of a Rural Development Plan drawn up pursuant to the Council Regulation;"

(d) yn y diffiniad o "eligible person" (person cymwys) gwneir y newidiadau canlynol i'r cyfeiriadau at erthyglau yn Rheoliad y Comisiwn:

"Article 31" yn lle "Article 10";

"Article 48(2)" yn lle "Article 20(2)"; ac

"Article 48(3)" yn lle "Article 20(3)".

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y prif Reoliadau sy'n dwyn y rhif hwnnw.

**Newidiadau i gyfeiriadau**

**3.**—(1) Yn rheoliad 3(6) (Y pŵer i wneud cytundebau), rhodder "Article 20" yn lle "Article 13".

(2) Yn rheoliad 8(4) (Hysbysu newid meddiannaeth), rhodder "Article 29" yn lle "Article 11" ac "Article 30" yn lle "Article 12".

(3) Ym mharagraffau (1), (4) a (6) o reoliad 11 (Dal cymorth yn ôl a'i adennill), rhodder "Article 48" yn lle "Article 20" ac "Article 20(2)".

(4) Yn rheoliad 12(1) a (2) (Adennill llog), rhodder "Article 48(1)" yn lle "Article 20(1)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D Elis Thomas*

15 Chwefror 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Cyflwynodd Rheoliadau Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/1176) ("y prif reolliadau ") y cynllun Tir Gofal yng Nghymru. Cawsant eu diwygio gan Reoliadau Tir Gofal a Ffermio Organig (Diwygio) (Cymru) 1999 ("y rheoliadau diwygio") (O.S. 1999/3337 (Cy.45)).

Cafodd y prif reoliadau a'r rhai diwygio eu gwneud yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd sydd bellach wedi'i diwygio a'i disodli. Mae'r rheoliadau presennol yn cael eu gwneud felly i ddiweddaru'r cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth Ewropeaidd a geir yn y prif reoliadau.